



monmouthshire
sir fynwy

Darpariaeth Trochi Cyfrwng Cymraeg

Cyfarwyddiaeth Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi - Sir Fynwy

Cyflwyniad

Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ac sydd wedi ei rhannu ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg ar draws yr Awdurdod Lleol. Mae ymrwymiad gan yr Awdurdod Lleol i barhau i ehangu lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg i gyrraedd ein targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) drwy'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer Dysgu Cymunedau Cynaliadwy. Mae datblygu darpariaeth trochi hwyr yn sbardun allweddol wrth gefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Sir Fynwy a chynyddu nifer y disgyblion yn y dosbarth derbyn i gyrraedd y targed o 120 o ddisgyblion erbyn 2032.

Fel rhan o hyn, mae'r Cyngor yn anelu at:

- cynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg fel bod nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyrraedd targedau yn y CSCA
- gweithio gyda phenaethiaid, Llywodraethwyr ac aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg (FfAC) i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg
- dileu rhwystrau fel bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Fynwy 2022-32 wedi'i gefnogi gan Gynllun pum mlynedd manwl sy'n amlinellu'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd, neu sydd wedi'u cynllunio, ar gyfer pob un o'r saith deilliant. Dechreuwyd gweithredu'r cynllun yn 2022, a chyflwynir adroddiadau cynnydd blynyddol i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd a chynhwysir meysydd i'w gwella mewn camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae Fforwm Addysg Gymraeg (CSCA), dan gadeiryddiaeth yr Aelod Cabinet dros Addysg, neu yn ei absenoldeb Uwch Swyddog, yn darparu sianel gyfathrebu ffurfiol rhwng Cyngor Sir Fynwy, ei ysgolion a gynhelir a sefydliadau partner eraill sydd â diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy, ar faterion sy'n ymwneud â'r CSCA a Strategaeth Iaith Gymraeg yr Awdurdod Lleol. Mae grŵp hyrwyddo a saith is-grŵp dan arweiniad swyddogion wedi'u sefydlu i arwain ar y deilliannau yn y CSCA. Mae'r grwpiau hyn yn rhoi adborth i'r Fforwm Addysg Gymraeg ym mhob cyfarfod i adrodd ar gynnydd tuag at dargedau yn y CSCA.

Ymatebodd Sir Fynwy yn gyflym i sefydlu dosbarth trochi hwyr yn Ysgol Gymraeg Y Ffin yn ne'r sir yn 2022 ac yn fwy diweddar, sefydlodd ail ddosbarth trochi yn Ysgol Gymraeg Y Fenni i gefnogi'r cynnydd disgwyledig yn y galw yn ardal y Fenni pan fydd yr ysgol yn symud i'w safle newydd. Mae gwybodaeth mewn perthynas â darpariaeth trochi ac addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ar wefan y Cyngor.

Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy

Lleoliadau Nas Cynhelir:

Mae dau leoliad cyfrwng Cymraeg nas cynhelir yn Sir Fynwy, gyda'r ddau wedi'u lleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac yn cynnig gofal plant cofleidiol i blant sy'n mynychu darpariaeth feithrinfa ysgol, yn ogystal â lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg i blant 2 i 3 oed. Mae tîm y Blynnyddoedd Cynnar yn gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin ac aelodau eraill o'r FfAG i asesu'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled Sir Fynwy.

Darpariaeth Gynnar:

Mae tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy, pob un â darpariaeth feithrin ar y safle. Mae dwy o'r ysgolion hyn wedi'u hen sefydlu yn eu cymunedau. Mae Ysgol Gymraeg Y Ffin yng Nghil-y-coed yn ysgol un dosbarth mynediad ac mae Ysgol Gymraeg Y Fenni ar hyn o bryd ychydig dros ysgol un dosbarth mynediad yn y Fenni, gyda'r capasiti i ddod yn ysgol dau ddosbarth mynediad pan fydd yn symud i safle newydd yn 2026. Agorodd y drydedd ysgol, Ysgol Gymraeg Trefynwy, fel egin ysgol ym mis Medi 2024 ac mae wedi'i lleoli dros dro yn Nhrefynwy, ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow. Y disgwyl yw y bydd yr ysgol, dros amser, yn dod yn ysgol i 210 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd mae 33 o ddysgwyr yn yr ysgol, gan gynnwys y feithrinfa.

Bydd ehangu Ysgol Gymraeg Y Fenni ac agor Ysgol Gymraeg Trefynwy yn cynyddu capasiti lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a derbyn yn Sir Fynwy. Pan fydd y tair ysgol yn llawn capasiti, bydd gennym 120 o leoedd ym mhob carfan ac yn cyrraedd ein targed o 120 yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae hyn yn cydnabod ymrwymiad y Cyngor i strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac yn bodloni'n llawn y targedau a amlinellir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn rhagori ar darged Llywodraeth Cymru o 115 o leoedd.

Darpariaeth Eilradd:

Nid oes gennym ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy. Mae dysgwyr yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yng Nghasnewydd neu i Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Nhorfaen, a gall y ddwy ysgol gynnwys dysgwyr o flynyddoedd 7 i 13.

Sefydlu Darpariaeth Trochi

Roedd gan Sir Fynwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sefydledig yng ngogledd y sir. Fodd bynnag, roedd niferoedd y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Y Ffin wedi bod yn isel am gyfnod hir ac fel ysgol grŵp un, roeddent yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff, gan gynnwys Pennaeth parhaol. Er mwyn ysgogi twf, cymerodd yr Awdurdod Lleol benderfyniad strategol i agor dosbarth trochi yn yr ysgol a chynnwys hyn fel blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd.

Gweithiodd yr Awdurdod Lleol gyda'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr i sefydlu'r dosbarth trochi hwyr yn 2022, ar gyfer dysgwyr o flwyddyn 2 i fyny. Defnyddiwyd cyllid Grant Trochi Hwyr i dalu costau staff, darparu adnoddau i sefydlu'r dosbarth, hwyluso dysgu proffesiynol i staff ac ariannu amser digyswllt i arsylwi arferion da. Cymerodd yr ysgol yr awenau wrth ddatblygu rhaglen bwrpasol i ddysgwyr gan ddefnyddio strategaethau seiliedig ar dystiolaeth, gan gefnogi dysgwyr yn effeithiol i drawsnewid i ysgol cyfrwng Cymraeg. Ers i'r dosbarth trochi agor yn 2022, mae 32 o ddisgyblion wedi elwa o'r ddarpariaeth hon, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r dosbarth trochi hefyd wedi cefnogi'r twf yn nifer y disgyblion yn y dosbarth derbyn oherwydd gall rhieni ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w holl blant, ac nid dim ond y rhai sy'n dechrau yn yr ysgol. O ganlyniad, mae niferoedd y dosbarth derbyn wedi cynyddu o 13 ym mis Medi 2021 i 30 ym mis Medi 2025, sef targed 2032 ar gyfer yr ysgol.

Roedd yr Awdurdod Lleol yn bwriadu agor ail ddosbarth trochi yn Ysgol Gymraeg Y Fenni ym mis Medi 2024, er mwyn cynyddu'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg pan symudodd yr ysgol i'w safle newydd ym mis Medi 2025. Fodd bynnag, cafodd cynnydd ei ohirio oherwydd arolygiad Estyn ddechrau mis Medi, ac yna absenoldeb y Pennaeth am gyfnod estynedig ac oedi wrth symud i'r safle newydd. Ailgychwynnodd y gwaith hwn yng ngwanwyn 2025 gyda'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ysgol i sefydlu'r ail ddosbarth. Defnyddiwyd cyllid grant Trochi Hwyr i dalu cost staffio a swm ychwanegol o £17,000 i sefydlu'r dosbarth a hyfforddi staff i gyflwyno strategaethau trochi. Yn nhymor yr haf, cyfarfu staff o'r ddwy ysgol i adolygu'r model trochi yn Ysgol Gymraeg y Ffin a datblygu cynnig cyffredin ar draws y ddwy ysgol. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, cytunwyd ar brotocol ar gyfer derbyn, sef rhaglen deg wythnos ac ystod oedran blwyddyn 3 i 6 ar gyfer derbyn i ddosbarth trochi hwyr a ffurfiodd sail y Polisi Trochi Hwyr. Mabwysiadwyd trefniadau presennol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion gan y ddwy ysgol a darparwyd cefnogaeth ychwanegol gan y gwasanaeth gwella ysgolion. Agorodd y ddau ddosbarth trochi ym mis Medi 2025 gydag un disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Gymraeg y Fenni a dau yn Ysgol Gymraeg y Ffin.

Yn dilyn agor Ysgol Gymraeg Trefynwy ym mis Medi 2024, a'i thwf cyflym mewn niferoedd, mae'n debygol y bydd angen darpariaeth trochi ar yr ysgol o fis Medi 2026. O ystyried hyn, mae'r Awdurdod Lleol wedi penderfynu gweithio gyda'r tair ysgol i gyd-adeiladu model cynaliadwy, sirol ar gyfer trochi. Er bod y gwaith hwn yng nghyfnod cynnar ei ddatblygiad, bydd alinio'r ddarpariaeth ar draws y ddau ddosbarth trochi sefydledig yn cefnogi unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

Dysgu ar hyd y ffordd

Effaith Covid-19

Pan ddychwelodd y disgyblion i'r ysgol yn 2021, roedd yn amlwg bod y seibiant estynedig o'r ysgol, yn enwedig i ddisgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith, wedi effeithio'n anochel ar allu ieithyddol llawer o ddysgwyr. Gan fod y dosbarth trochi wedi'i sefydlu ar gyfer hwyrddyfodiaid a oedd yn dechrau addysg cyfrwng Cymraeg o flwyddyn 2, ehangodd yr ysgol yr ystod i gynnwys blwyddyn 1. Roedd hyn yn golygu y gallent ddarparu cefnogaeth i'r disgyblion ieuengaf, a'r rhai yr oedd angen ymyrraeth wedi ei thargedu arnynt i wella eu sgiliau iaith, gan gynnwys treulio mwy o amser yn y dosbarth trochi a chefnogi'r broses o drosglwyddo yn ôl i ddosbarth prif ffrwd.

Amser estynedig a dreuliwyd yn y dosbarth trochi

Er bod y dosbarth trochi yn llwyddiannus, adroddodd staff trochi am rai anawsterau wrth ddiwallu anghenion dysgwyr os ydynt yn dechrau ar wahanol adegau ac yno am gyfnod estynedig o amser. Er enghraifft, mae dysgwr yn ymuno â'r dosbarth trochi ar ôl dechrau'r rhaglen ac mae angen geirfa a phatrymau brawddegau gwahanol arno. Yn yr achos hwn, mae angen rhaglen unigol arnynt fel y gallant ddatblygu eu sgiliau'n systematig. Mae hyn yn anodd ei reoli os yw sawl dysgwr yn ymuno ar adegau gwahanol yn y rhaglen ac mae cyfleoedd i ymarfer y sgiliau sydd ganddynt mewn cyd-destun priodol yn gyfyngedig.

Staffio a Chyllido

Mae recriwtio staff yn her i ysgolion cyfrwng Cymraeg ledled Sir Fynwy, yn enwedig y rhai sydd â phrofiad o gyflwyno darpariaeth trochi. Mae dyrannu cyllid trochi i Ysgol Gymraeg Y Ffin ar ddechrau pob blwyddyn ariannol yn galluogi'r Pennaeth i gynnal darpariaeth trochi. Pan nad oes gan yr ysgol blant sy'n cael mynediad at addysg drochi, gellir ailgyfeirio staff i waith arall o fewn yr ysgol i wella sgiliau ieithyddol dysgwyr yn ôl disgrisiwn y Pennaeth.

Manteision y Trefniadau Presennol

- Mae cyllid yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion trochi gan alluogi'r Pennaeth i recriwtio staff priodol a sicrhau bod darpariaeth ar gael.
- Mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu perthnasol yn gyfrifol am reoli'r ddarpariaeth trochi ac addasu adnoddau i ddiwallu'r galw.
- Nid oes rhaid i rieni wneud cais am drochi oherwydd bod asesiad o angen trochi yn cael ei gynnal gan Benaethiaid ar ôl cynnig lle yn yr ysgol.
- Mae dysgwyr wedi'u cofrestru yn yr ysgol ac yn mynychu'r dosbarth trochi am y rhan fwyaf o'r amser. Mae ganddynt gyfleoedd rheolaidd i gyfarfod â'r dosbarth prif ffrwd perthnasol.
- Mae staff trochi yn parhau i gefnogi dysgwyr ar ôl iddynt wneud y newid i'w dosbarth prif ffrwd.
- Mae cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddarpariaethau trochi yn unol â'i bolisi Cludiant Cartref i'r Ysgol rheolaidd ac fe'i trefnir gan y Cyngor.

Defnyddio Cyllid Grant Llywodraeth Cymru

Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid grant refeniw gan Lywodraeth Cymru i gefnogi trochi hwyr ac mae wedi defnyddio hwn i gefnogi amgylcheddau dysgu, adnoddau ieithyddol a staffio. Hawliwyd grant cychwynnol o £83,720 yn 2021/2022 a'i wario fel yr amlinellir yn y tabl isod:

Blwyddyn Ariannol	Swm	Defnydd
2021/2022	£32,962	Costau sefydlu dosbarth trochi hwyr Dodrefn ac offer Adnoddau i gefnogi trochi Adnoddau Peniarh i gefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg
	£48,408	Athro/Athrawes Arweiniol (Medi 21 i Fawrth 22) Athrawes 0.8 (Tachwedd 21 i Fawrth 22)
	£2,350	Hyfforddiant staff – addysgeg trochi (di-gyswllt) Pennaeth amser di-gyswllt ac arweinydd Trochi (ymchwil, arsylwi arfer da, cydweithio â'r Awdurdod Lleol, adolygu a datblygu darpariaeth trochi)
Total	£83,720	

Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru Grant Trochi Hwyr Cyfrwng Gymraeg 3 blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2025 a gwahodd cynigion gan awdurdodau lleol, ymgynghorodd yr Awdurdod Lleol â'r Pennaeth i adolygu effaith y ddarpariaeth drochi ac anghenion y dyfodol. O ystyried y buddsoddiad mewn adnoddau y flwyddyn flaenorol, roedd y rhan fwyaf o'r cynnig yn ymwneud â chynnal lefelau staffio i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn briodol. Cyflwynodd yr Awdurdod Lleol gynnig tair blynedd yn llwyddiannus am y swm o £260,579 a gafodd ei gymeradwyo a'i ddyrannu'n flynyddol i Ysgol Gymraeg Y Ffin. Gwariodd yr Awdurdod Lleol y rhan fwyaf o'r cyllid grant a ddyrannwyd. Fodd bynnag, golygodd oedi wrth recriwtio staff yn 2022/23 nad oedd yr Awdurdod Lleol yn gallu defnyddio £31,747 o'r grant ar gyfer y flwyddyn honno.

Daeth y cyllid 24/25 yn rhan o Grant Addysg yr Awdurdod Lleol. Derbyniodd yr Awdurdod Lleol ddyraniad o £155,679 a dyrannodd y cyllid hwn rhwng Ysgol Gymraeg Y Ffin (£98,555) i gynnal staffio yn y dosbarth trochi ac Ysgol Gymraeg Y Fenni (£17,124) i sefydlu'r dosbarth trochi a hyfforddi staff yn barod i'w agor ym mis Medi 2025. Yn 2025/26, derbyniodd yr Awdurdod Lleol grant o £115,697 gan Grant Addysg yr Awdurdod, sydd wedi'i rannu rhwng Ysgol Gymraeg Y Ffin ac Ysgol Gymraeg Y Fenni i dalu costau staff ac mae'n golygu y bydd y grant yn cael ei wario'n llawn.

Camau Nesaf

- Parhau i gefnogi twf Ysgol Gymraeg Y Fenni ac Ysgol Gymraeg Trefynwy fel ein bod yn cyrraedd ein targed o 120 o ddisgyblion derbyn erbyn diwedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol.
- Cwblhau gwaith sydd eisoes wedi dechrau i adolygu ac ail-lunio model cynaliadwy ar gyfer darpariaeth trochi ledled y sir, a bydd hyn yn cael ei gwblhau i'w weithredu ym mis Medi 2026.
- Sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth trochi yn cael eu hysbysebu a'u cyhoeddusrwydd yn dda i annog nifer cynyddol o rieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yn weithredol.